

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR GWAITH 18.6.2019

Presennol – W T Owen, J W Parry, C Williams, C Larsen, R Thomas, I C Thomas

1. Ethol swyddogion

Cafodd Cyng C Larsen ei ethol fel cadeirydd

A Chafodd Cyng D L Jones ei hethol fel is cadeirydd

2. Ymddiheuriadau

Cyng A Hopcyn a Cyng W R Owen

3. Datgan Buddiant Personol

Dim

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Swydd Cynnal a Chadw / Offer

Penderfynwyd bod angen yr isod

- Gwisg – sgidiau steel toes caps
 - 2 bar o trowsus
 - 3 crys polo (wedi brandio)
 - 2 siwmpwr (wedi brandio)
 - 1 high vis
 - 1 cot high vis (wedi brandio)

Litter pick a hoop

Bagiau bin trwchus

Menig

Rhaw

Brwsh caled

Offer torri gwrych

Lone working policy, Ffon symudol ac edrych i mewn i sky guard app.

Y clerc i ddefnyddio ei doethineb efo'r gweithiwr i brynu beth sydd ei angen

Agor cyfrif efo Travis Perkins ar gyfer offer a stwff glanhau arwyddion ag ati

Peidio prynu cart bychain yn y man cyntaf ond adolygu'r gofynion ar ôl 3-6 mis

- Angen trafodaeth pellach efo Steffan i benderfynu ar leoliad i bin Cyngor
- Angen hyfforddiant lladd chwyn (dibynnu ar gefndir yr unigolyn)
- Angen COSSH

6. Diweddariad Parc Coed Helen

Cafwyd diweddariad bod y clerc a'r cadeirydd wedi cael cyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd sydd yn nodi bod hi yn bosib i roi peiriant talu yno os fydd angen

Nodwyd bod Alun Wyn Jones wedi nodi y buasai nhw yn parhau i neud yr archwiliadau wythnosol am gyfnod o 3 mlynedd, ynghyd a cynnal a chadw'r offer ac yswiriant i'r offer chwarae yn unig .

Penderfynwyd i'r clerc greu rhestr efo Ken Jones Cyngor Gwynedd o'r holl oblygiadau h.y costau'r tŷ , cynnal a chadw, yswiriant, TUPE, cyn Mis Medi er mwyn galluogi penderfyniad terfynol. Trefnu cyfarfod penodol ym Mis Medi ar gyfer hyn

Soniwyd hefyd yn y cyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd bod modd i ni godi ffioedd parcio 10% yn y meysydd parcio yn y dref ac yna bod y Cyngor Tref yn cael y 10% hwnnw er mwyn ei wario ar y dref. Yn disgwyl am y ffigurau gan Cyngor Gwynedd cyn medru trafod ymhellach

Gorffennodd y cyfarfod am 18.41

Arwyddwyd Dyddiad

